



Cymeradwyo Mater 12 yng Nghynllun Argyfwng Wylfa

**Newidiadau Arfaethedig i Drefniadau Argyfwng Safle Wylfa yn ystod y Cyfnod Gwaredu
Tanwydd**

Adroddiad Asesiad Prosiect ONR-SDFW-PAR-16-001
Adolygiad 0
23 Mai 2016

© Y Swyddfa dros Reoli Niwclear, 2015

Os ydych yn dymuno ail-ddefnyddio'r wybodaeth hon, ewch i www.onr.org.uk/copyright am fanylion.
Cyhoeddwyd 05/16

Ar gyfer dogfennau cyhoeddedig, y copi electronig ar wefan yr ONR yw'r fersiwn fwyaf cyfredol sydd ar gael i'r cyhoedd ac mae ei gopïo neu ei argraffu yn gwneud y ddogfen hon yn un na ellir ei rheoli.

CRYNODEB GWEITHREDOL

Newidiadau Arfaethedig i Drefniadau Argyfwng Safle Wylfa yn ystod y Cyfnod Gwaredu Tanwydd

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno casgliadau ystyriaeth y Swyddfa dros Reoli Niwclear (ONR) o gais Magnox Ltd am Gymeradwyaeth ar gyfer diwygio Cynllun Argyfwng Wylfa yn deillio o newidiadau arfaethedig i'r gallu i ymateb i argyfwng ar y safle sy'n unol â'r lleihad mewn risg a pherygl ar y safle yn ystod cyfnod gwaredu tanwydd y gweithrediadau.

Y Caniatâd a Geisir

Mae deiliad trwydded safle niwclear Wylfa, Magnox Ltd, wedi cynnig diwygio Cynllun Argyfwng yr orsaf. Mae Magnox Ltd wedi gofyn am 'Gymeradwyaeth' yr ONR i'r diwygiadau hyn dan Amod Trwydded (LC) 11(3) a atodwyd i Drwydded Safle Niwclear rhif 58A

Cefndir

O ystyried y gostyngiad parhaus mewn perygl radiolegol a'r gostyngiad cysylltiedig mewn risgiau mae strategaeth gynllunio argyfwng Magnox Ltd yn cefnogi gostyngiad yn y staff angenrheidiol mewn argyfwng a newidiadau i'r trefniadau ymateb i argyfwng. Mae'r strategaeth hon wedi cael ei hymgorffori yn Safon Cwmni Magnox Ltd, sy'n amlinellu'r trefniadau cynllun argyfwng generig ar gyfer yr holl safleoedd sy'n perthyn i Magnox Ltd ar ôl eu cyfnod cynhyrchu trydan hyd at ddatgymhwysio rheoliadau 7 a 9 REPPIR.

I grynhoi, y prif newidiadau i'r trefniadau argyfwng wrth gynhyrchu trydan yw:

- Llai o bwyslais ar drwsio difrod ar frys gan nad yw unrhyw ddiffygion posibl yn ystod gwaredu tanwydd yn debygol o fod angen ymyrraeth brydlon i atal iddynt waethygu.
- Gostwng y nifer o adnoddau ar gyfer ymateb ar unwaith o blith personél ar shifft ond ategir at hynny trwy gynyddu'r nifer o staff sydd wrth gefn.
- Aseiniadau shifft yn gostwng o 19 i 10 o staff.
- Y strwythur Gorchymyn a Rheoli yn gostwng o nod 3 i 2
- Tîm Ymateb Shifft (yn cynnwys monitro ffiseg iechyd, cymorth cyntaf, achub a'r gallu i ymateb i dân) yn dod yn lle'r Tîm Ymateb Digwyddiad Shifft
- Aseiniadau heb fod ar shifft yn cael eu gostwng o 18 i 14 o staff.
- Tîm Trwsio Difrod o 10 i lawr i Dîm Ymateb o 6
- Nid oes galw bellach am Ffisegwr Adweithydd Argyfwng a bydd Cynghorydd Argyfwng Technegol yn ei le.

Gwaith asesu ac archwilio a gyflawnwyd gan yr ONR wrth ystyried y cais hwn

Mae'r ONR wedi cyflawni rhaglen o waith sy'n cynnwys asesiad o elfennau amrywiol o'r trefniadau arfaethedig, archwilio ymarferion hyfforddi a gwylio ymarfer arddangos Lefel 1.

Materion yn codi o waith yr ONR

Nid oes unrhyw faterion heb eu datrys yn parhau o waith asesu ac arolygu'r ONR.

Casgliadau

I gloi, rwy'n fodlon gyda'r hawliadau, dadleuon a thystiolaeth a gyflwynwyd yng Nghynllun Argyfwng Wylfa a'r dogfennau cefnogi bod y diwygiad arfaethedig yn ddigonol i fodloni gofynion Amod Trwydded 11.

Argymhelliad

Mae Adroddiad Asesiad y Prosiect yn argymhell:

- Fod y Dirprwy Brif Arolygydd Niwclear ar gyfer y Rhaglen Datgomisiynu, Tanwydd a Gwastraff yn derbyn y dyfarniadau technegol a rheoleiddiol yn yr adroddiad hwn;

- Fod y Dirprwy Brif Arolygydd Niwclear ar gyfer y Rhaglen Datgomisiynu, Tanwydd a Gwastraff yn cymeradwyo'r adroddiad hwn ar gyfer ei gyhoeddi wedi ei olygu fel fo'n briodol; a
- fod y Dirprwy Brif Arolygydd Niwclear ar gyfer y Rhaglen Datgomisiynu, Tanwydd a Gwastraff yn cyhoeddi Offeryn Trwyddedu 567, Cymeradwyaeth, i'r Trwyddedai newid neu ddiwygio Cynllun Argyfwng Wylfa.

RHESTR BYRFODDAU

MoC	Rheoli newid
ONR	Y Swyddfa dros Reoli Niwclear
REPPIR Gyhoeddus)	Rheoliadau Ymbelydredd (Parodrwydd mewn Argyfwng a Gwybodaeth

TABL CYNNWYS

1	Y CANIATÂD A GEISIR.....	7
2	CEFNDIR.....	7
3	GWAITH ASESU AC ARCHWILIO A GYFLAWNWYD GAN YR ONR WRTH YSTYRIED Y CAIS HWN.....	8
4	MATERION YN CODI O WAITH YR ONR	10
5	CASGLIADAU.....	10
6	ARGYMHELLION	10
7	CYFEIRIADAU.....	11

1 Y CANIATÂD A GEISIR

1. Mae deiliad trwydded safle niwclear Wylfa, Magnox Ltd, wedi cynnig diwygio cynllun argyfwng yr orsaf (Cyfeiriad 1 a 20). Mae'r cynnig yn anelu at ddarparu'r gallu i ymateb i argyfwng ar y safle sy'n unol â'r newid yn y risg a'r perygl ar y safle yn ystod y cyfnod gwaredu tanwydd o'r gweithrediadau.
2. Mae Amod Trwydded (LC) 11 yn ei gwneud yn ofynnol i'r trwyddedai wneud a gweithredu trefniadau digonol i ddelio ag unrhyw ddamwain neu argyfwng sy'n digwydd ar y safle a'u heffeithiau. Dan LC 11(3) mae ar y Trwyddedai angen Cymeradwyaeth y Swyddfa dros Reoli Niwclear (ONR) i'r newidiadau a diwygiadau i'r trefniadau a gymeradwywyd. Gofynnodd y Trwyddedai am 'Gymeradwyaeth' yr ONR dan LC 11(3) i newid neu ddiwygio cynllun argyfwng Wylfa. (Cyfeiriad 2).

2 CEFNDIR

3. Mae'r ddau adweithydd yn Wylfa nawr mewn cyflwr heb wasgedd, diffodd oer trwy aer. Mae'r adweithyddion wedi eu haddasu i atal critigoldeb newydd ac i sicrhau y gellir cynnal ffin ddiffodd yn ystod gweithredu arferol i waredu tanwydd a phan fydd gwall. Mae Adweithydd 2 wedi ei wagio'n raddol o danwydd i gefnogi Adweithydd 1, a derfynodd weithredu ar ddiwedd Rhagfyr 2015, ac sydd bellach yn cael ei oeri trwy gylchdroi aer yn naturiol. Mae Adweithydd 1 ar hyn o bryd yn cael ei oeri'r weithredol a bydd yn newid i oeri goddefol yn ystod y cyfnod gwaredu tanwydd ar ôl cynhyrchu. Mae'r ddau adweithydd yn cyflwyno llai o risg o ran diogelwch niwclear a pheryglon mewn cymhariaeth â'r cyfnod cynhyrchu trydan, a bydd y risgiau a pheryglon hyn yn parhau i leihau wrth i'r tanwydd gael ei waredu o'r adweithyddion.
4. Ers i Adweithydd 1 orffen cynhyrchu, ni chyflawnwyd unrhyw waredu tanwydd pellach. Mae 100% o'r tanwydd yn Adweithydd 1 ac mae 65.5% o'r tanwydd yn Adweithydd 2. Cyfanswm y nifer o elfennau tanwydd ar ddiwedd Ebrill 2016 oedd 86163, bydd hyn wedi gostwng rhywfaint ers hynny o ganlyniad i allforio fflasgiau i Sellafield. Dynoda'r cynigion safle presennol ar gyfer gwaredu tanwydd na fydd tanwydd ar y safle erbyn diwedd Rhagfyr 2018.
5. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno ystyriaeth yr ONR o gynnig y Trwyddedai i ddiwygio cynllun argyfwng Wylfa. Cefnogir y cynnig gan gyflwyniad diogelwch Categori 1 (Cyfeiriad 1), Rheoli Newid (MoC) (Cyfeiriad 3) a gan ddogfennau sy'n y rhestr cyfeiriadau.
6. O ystyried y gostyngiad parhaus mewn perygl radiolegol a'r gostyngiad cysylltiedig mewn risgiau mae strategaeth gynllunio argyfwng Magnox Ltd (Cyfeiriad 4) yn cefnogi gostyngiad yn y staff angenrheidiol mewn argyfwng a newidiadau i'r trefniadau ymateb i argyfwng. Mae'r strategaeth hon wedi cael ei hymgorffori yn Safon Cwmni Magnox Ltd (Cyfeiriad 5) sy'n amlinellu'r trefniadau cynllun argyfwng generig ar gyfer yr holl safleoedd sy'n perthyn i Magnox Ltd ar ôl eu cyfnod cynhyrchu trydan hyd at ddatgymhwyso rheoliadau 7 a 9 REPPiR.
7. I grynhoi, y prif newidiadau i'r trefniadau argyfwng wrth gynhyrchu trydan yw:
 - Mae llai o bwyslais ar drwsio difrod ar frys gan nad yw unrhyw ddiffygion posibl yn ystod gwaredu tanwydd yn debygol o fod angen ymyrraeth brydlon i atal iddynt waethygu.
 - Gostyngiad yn y nifer o adnoddau ar gyfer ymateb ar unwaith o blith personél ar shifft ond ategir at hynny trwy gynyddu'r nifer o staff sydd wrth gefn.
 - Aseiniadau shifft yn gostwng o 19 i 10 o staff.
 - Y strwythur Gorchymyn a Rheoli yn gostwng o nod 3 i 2
 - Tîm Ymateb Shifft (yn cynnwys monitro ffiseg iechyd, cymorth cyntaf, achub a'r gallu i ymateb i dân) yn dod yn lle'r Tîm Ymateb Digwyddiad Shifft

- Aseiniadau heb fod ar shifft yn cael eu gostwng o 18 i 14 o staff.
- Tîm Trwsio Difrod o 10 yn newid i Dîm Ymateb o 6
- Nid oes galw bellach am Ffisegwr Adweithydd Argyfwng a bydd Cynghorydd Argyfwng Technegol yn ei le.

8. Cefnogwyd datblygiad y trefniadau gwaredu tanwydd trwy ryngweithio sylweddol gyda'r gwasanaethau argyfwng allanol gan gynnwys eu cyfraniad at nifer o ymarferion cynefino a hyfforddi (Cyfeiriad 19). Rhoddodd ymgynghoriaeth allanol, Berwicks, hyfforddiant wedi ei ganolbwyntio a chefnogaeth i'r ymarferion o ran agweddau goruchwylio a rheoli o'r trefniadau newydd (Cyfeiriad 19).

3 GWAITH ASESU AC ARCHWILIO A GYFLAWNWYD GAN YR ONR WRTH YSTYRIED Y CAIS HWN

9. Mae'r ONR wedi cyflawni rhaglen o waith sy'n cynnwys asesiad o elfennau amrywiol o'r trefniadau arfaethedig, archwilio ymarferion hyfforddi a gwylio ymarfer arddangos Lefel 1.

10. Fe stopiodd Adweithydd 1 gynhyrchu trydan yn Rhagfyr 2015 ac fe stopiodd Adweithydd 2 gynhyrchu yn Ebrill 2012. Ar ôl eu cau i lawr yn derfynol mae'r ddau adweithydd wedi eu haddasu i atal critigoldeb newydd ac i sicrhau y gellir cynnal ffin ddiffodd yn ystod gweithredu arferol i waredu tanwydd a phan fydd gwall. Gwagwyd y pwysedd o'r adweithyddion, maent yn gweithredu ar dymheredd sylweddol is nag yr oeddent yn gynhyrchu ac mae aer wedi ei roi yn lle'r nwy oeri carbon deuocsid oedd ynddynt. Felly mae'r adweithyddion yn creu perygl niwclear llawer llai, mewn cymhariaeth â'r cyfnod pan oeddent yn cynhyrchu trydan.

3.1 ASESIAID

3.1.1 RHEOLI NEWID

11. Cyn cyflwyno ei gyflwyniad ffurfiol roedd Magnox Ltd wedi rhoi copi o'r MoC yn disgrifio'r strwythur arfaethedig ar gyfer y trefniadau ymateb i argyfwng ar gyfer y cyfnod gwaredu tanwydd a'r rhesymau dros wneud y newid (Cyfeiriad 3). Adolygwyd y MoC gan Arolygwyr ONR o'r arbenigeddau Diogelwch Tân, Arweinyddiaeth a Rheolaeth dros Ddiogelwch Radiolegol ac Arolygu Safle. Cyflwynwyd nifer o ymholiadau a sylwadau i Magnox Ltd o'r adolygiadau hyn a rhoddwyd atebion addas (Cyfeiriad 6).

12. Ar ôl cyflwyno ei gais ffurfiol, rhoddodd Magnox Ltd gyflwyniad i'r ONR mewn cyfarfod a gynhaliwyd yn gynnar yn Ionawr 2016 (Cyfeiriad 7). Daeth arolygwyr o'r arbenigeddau a fu'n asesu'r MoC i'r cyfarfod hwn. Roedd y cyfarfod yn gyfle i gael y newyddion diweddaraf am y newidiadau oedd yn digwydd fel ymateb i'r ymyrraeth reoleiddiol a'u datblygu ymhellach yn Magnox Ltd ac roedd yn sicrhau bod pawb yn deall y trefniadau arfaethedig cyn arolygu eu gweithrediad. Cadarnhaodd y cyfarfod bod nifer o sylwadau o gyfarfodydd blaenorol rhwng yr ONR a Magnox Ltd wedi cael eu trin yn foddhaol.

13. Yn fy marn i, mae trefniadau ymateb i argyfwng arfaethedig y Trwyddedai ar gyfer y cyfnod gwaredu tanwydd yn Wylfa a'i MoC ar gyfer y trefniadau newydd yn ddigonol.

3.1.2 CYNLLUN ARGYFWNG A LLAWLYFR

14. Rwyf wedi adolygu'r Cynllun Argyfwng arfaethedig ac yn fy marn i mae'n gyson â safonau corfforaethol Magnox Ltd, ac eithrio cadw'r tîm tân ar y safle. Nid yw safon corfforaethol Magnox Ltd yn ei gwneud yn ofynnol i gael gallu i ymladd tân ar y safle yn ystod y cyfnod gwaredu tanwydd. Ond, mae'r safle yn ystyried bod hyn yn angenrheidiol ar hyn o bryd ac felly mae'n cadw'r gallu i ymladd tân yn ei dîm ymateb.

Mae'r cyfiawnhad dros hyn yn rhesymol ac yn unol â'r ddealltwriaeth bod gan Wasanaethau Tân ac Achub Gogledd Cymru nifer o sialensiau o ran adnoddau sy'n cael eu trin ar hyn o bryd. Yn fy marn i mae cadw'r gallu hwn ar y safle yn ystod y camau cychwynnol wrth waredu'r tanwydd yn briodol.

15. Adolygodd yr ONR y Cynllun Argyfwng a'r Llawlyfr Argyfwng sy'n cyd-fynd ag o gyda'r nod o gadarnhau bod y trefniadau a ddangoswyd yn yr ymarferion hyfforddi yn gyson â'r gweithdrefnau ysgrifenedig. Tanlinellodd yr adolygiad rai agweddau parthed rôl y Peiriannydd Cyfrifol ar Shifft nad oedd yn cael eu disgrifio yn gywir a hefyd swyddogaeth a nifer y nodau Gorchymyn a Rheoli. Cyflwynwyd y materion hyn a rhai meysydd ychwanegol oedd angen eu hegluro i Magnox Ltd (Cyfeiriad 12 ac 13). Cyflwynwyd ymatebion digonol (Cyfeiriad 14) a arweiniodd at adolygu pellach ar y Cynllun Argyfwng a'i ail gyhoeddi wedyn (Cyfeiriad 15 ac 16). Ystyrir bod y cynllun argyfwng diwygiedig yn ddigonol ac mae'r newidiadau wedi cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Diogelwch Niwclear iddynt eu cymeradwyo fel mater yn codi (Cyfeiriad 17).
16. Yn fy marn i, mae Cynllun Argyfwng arfaethedig y Trwyddedai ar gyfer Wylfa yn addas i'r diben ac yn ymdrin yn ddigonol â gofynion LC 11.

3.2 AROLYGU

17. Yn ystod y gwaith o baratoi at drosi i'r trefniadau argyfwng newydd cynhaliodd Magnox Ltd raglen o 5 ymarfer hyfforddi shifft a arweiniodd at ymarfer arddangos Lefel 1. Arolygodd yr ONR ddau o'r ymarferion hyfforddi cyn bod yn dyst i'r ymarfer Lefel 1 (Cyfeiriadau 8 a 9). Diben arolygu'r ymarferion yma oedd casglu tystiolaeth pa mor gadarn oedd yr hyfforddiant oedd yn cael ei roi a cheisio cyfleoedd i ddynodi unrhyw wendid posibl oedd yn dod i'r amlwg a allai arwain at adolygiad i'r ymateb argyfwng yn ystod y cyfnod gwaredu tanwydd. Amlygodd yr arolygu ar yr ymarferion hyn rai o'r anawsterau wrth newid ffordd o feddwl peirianwyr shifft o ran bod yn fwy hyblyg yn y ffordd y maent yn ymateb i ddamweiniau neu argyfyngau, o ystyried bod y risgiau a'r peryglon sy'n gysylltiedig â gweithgareddau gwaredu tanwydd yn llai o'u cymharu â chynhyrchu trydan.
18. Dangosodd yr arolygu ar yr arddangosfa Lefel 1, oedd hefyd yn cynnwys elfen ddiogelwch, bod yr hyn a ddysgwyd yn yr ymarferion hyfforddi, ac agweddau eraill o weithgareddau gweithredu Magnox Ltd, wedi cael eu deall a'u hymgorffori (Cyfeiriad 10). Er gwaethaf rhai o'r sylwadau ar gyfleoedd i wella, daeth yr ONR i'r casgliad bod yr ymarfer yn cynnig arddangosiad digonol o drefniadau argyfwng Wylfa a chasglwyd gwersi pwysig i'w defnyddio wrth waredu'r tanwydd. Er gwaethaf y casgliad bod yr arddangosfa yn cael ei dyfarnu yn ddigonol, argymhellodd yr ONR bod ail arddangosfa yn cael ei chynnal yn y dyfodol agos i ymdrin â'r cyfleoedd yma a ddynodwyd ar gyfer gwella. Roedd y rhain yn cynnwys:
 - Cymorth cyntaf ac ymdrin â rhai a anafwyd
 - Cyfle i asesu perfformiad Arweinydd y Tîm Ymateb
 - Cyfle i weld y Tîm Ymateb yn perfformio gyda chwe aelod yn y tîm.
 - Sefydlu canolfannau rheoli yn ôl y newidiadau a ddisgrifir i'r trefniadau argyfwng
 - Y ddisgyblaeth oruchwylio a rheoli yn y Mân Rheoli Uwch
 - Dadlygru rhai a anafwyd, eu rheoli a'u hadfer

Cadarnhaodd Magnox Ltd y bydd yn cynnal rhaglen o ymarferion hyfforddi i gadarnhau'r hyfforddiant a fydd yn rhoi cyfle i ddangos y gall yr agweddau a amlygwyd gael eu harddangos (Cyfeiriad 11).

19. Trwy gydol y cyfnod gweithredu mae Magnox Ltd wedi cynnal perthynas ragorol gyda'r gwasanaethau argyfwng allanol sydd wedi bod o fudd i bob sefydliad (Cyfeiriad 19).

Cyfarfu Arolygydd Safle'r ONR a'r Arolygwr arbenigol Diogelwch Tân ar wahân gyda Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru i drafod eu sylwadau ar allu a threfniadau arfaethedig Magnox Ltd. Roedd y ddau sefydliad allanol yn gadarnhaol yn eu hymateb i brofiad o adfywio'r berthynas â'r Trwyddedai. Yn fy marn i mae'r ymwneud rheoleiddiol cynyddol hwn wedi hwyluso'r gwaith o weithredu hyfforddiant integredig perthnasol sydd wedi bod yn absennol yn ystod y blynyddoedd diwethaf'. Arweiniodd hyn at gynnydd yn yr hyder rheoleiddiol yng ngallu'r trwyddedai i gyflawni ymateb addas petai digwyddiad ar y safle.

20. Yn fy marn i mae'r Trwyddedai wedi dangos yn ddigonol y gall weithredu ei Gynllun Argyfwng arfaethedig yn effeithiol.

4 MATERION YN CODI O WAITH YR ONR

21. Nid oes unrhyw faterion heb eu datrys yn parhau o waith asesu ac arolygu'r ONR.

5 CASGLIADAU

22. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno casgliadau ystyriaeth yr ONR o gais Magnox Ltd am 'Gymeradwyaeth' ar gyfer diwygio Cynllun Argyfwng Wylfa o newidiadau arfaethedig i'r trefniadau ymateb i argyfwng.
23. I gloi, rwy'n fodlon yn fras â'r honiadau, dadleuon a'r dystiolaeth a gyflwynwyd yng Nghynllun Argyfwng Wylfa a'r dogfennau cefnogi bod y diwygiad arfaethedig yn ddigonol i fodloni gofynion Amod Trwydded 11.

6 ARGYMHELLION

26. Mae Adroddiad Asesiad y Prosiect yn argymhell;
- Fod y Dirprwy Brif Arolygydd Niwclear ar gyfer y Rhaglen Datgomisiynu, Tanwydd a Gwastraff yn derbyn y dyfarniadau technegol a rheoleiddiol yn yr adroddiad hwn;
 - Fod y Dirprwy Brif Arolygydd Niwclear ar gyfer y Rhaglen Datgomisiynu, Tanwydd a Gwastraff yn cymeradwyo'r adroddiad hwn ar gyfer ei gyhoeddi wedi ei olygu fel fo'n briodol; a
 - bod y Dirprwy Brif Arolygydd Niwclear ar gyfer y Rhaglen Datgomisiynu, Tanwydd a Gwastraff yn rhoi Cymeradwyaeth Offeryn Trwydded 567 (Cyfeiriad 18), i'r Trwyddedai newid neu ddiwygio Cynllun Argyfwng Wylfa.

7 CYFEIRIADAU

1. NP/SC 5280 Diwygiad 02. Newidiadau Arfaethedig i Drefniadau Argyfwng Safle Wylfa yn ystod y cyfnod gwaredu tanwydd TRIM 2015/490682.
2. Llythyr WYF52460R, dyddiedig 22 Rhagfyr 2015, Amod Trwydded 11(3) – Trefniadau Argyfwng, Cais am Gymeradwyaeth o Fater 11 Cynllun Argyfwng Wylfa, Dogfen WAY/EMP/001 Dan Amod Trwydded 11(3), TRIM 2015/490682.
3. WYL/DD/QPC/05.12 Rhifyn 2 - Safle Wylfa - Rhaglen Drosi o Gynhyrchu i Waredu - MOC Dogfen Amlinellu Cyfiawnhad - 12 Cynllun Argyfwng. TRIM 2016/167848.
4. NP/SC 5125 Diwygiad 1, Papur er Gwybodaeth: Newid Cynlluniau Argyfwng wrth Ddwyn Cynhyrchu i Ben. TRIM 2012/372852.
5. Safon Cwmni S-076 Rhifyn 2. Trefniadau Argyfwng Generig ar gyfer Safleoedd Ar ôl Gorffen Cynhyrchu. TRIM 2016/163276.
6. Sylwadau ONR wedi eu cyfuno ar MoC Trefniadau Argyfwng ar ôl Cynhyrchu Magnox Wylfa gan gynnwys ymatebion y Trwyddedai. TRIM 2016/201355.
7. Wylfa - Dadl Diogelwch Gwaredu Tanwydd Ôl Gynhyrchu - LC11 - Cyflwyniad Trefniadau Gwaredu Tanwydd - 6 Ionawr 2016. TRIM 2016/6645.
8. Cofnod Ymyrraeth ONR-DFW-IR-15-124 - Gorsaf Bŵer Wylfa - Ymyrraeth Arfaethedig - 7 hyd 11 Rhagfyr 2015. TRIM 2015/482790
9. Cofnod Ymyrraeth ONR-DFW-IR-15-135 - Magnox Ltd – Gorsaf Bŵer Wylfa – Ymyrraeth a Gynlluniwyd - 18 i 22 Ionawr 2016. TRIM 2016/41085.
10. Cofnod Ymyrraeth ONR-DFW-IR-15-158 - Magnox Ltd - Gorsaf Bŵer Wylfa - Arolwg Arfaethedig - 22 i 23 Mawrth 2016 TRIM 2016/149434
11. Cadarnhad gan Magnox Ltd o gyflawni hyfforddiant cadarnhau trefniadau argyfwng yn ystod 2016/17 ac i ymateb i Ymyrraeth ONR ONR-DFW-IR-15-158
12. E-bost gan yr ONR at Magnox Ltd yn codi nifer o ymholiadau am Gynllun Argyfwng Wylfa (Mater 11) a'r Llawlyfr Argyfwng i gyd fynd ag ef. TRIM 2016/167910.
13. Cofnod Cyswllt ONR-SDFW-CR-16-052 - Diwygiadau Wylfa i Drefniadau Argyfwng ar gyfer Gweithrediadau Gwaredu Tanwydd - Telecon - 22 Ebrill 2016. TRIM 2016/168549.
14. Magnox Ltd, Wylfa - Ymateb i e-bost gan yr ONR at Magnox Ltd yn codi nifer o ymholiadau am Gynllun Argyfwng Wylfa (Mater 11) a'r Llawlyfr Argyfwng i gyd fynd ag ef. TRIM 2016/206207.
15. Wylfa - Pwyllgor Diogelwch Niwclear - NPSC 5280 Diwygiad 03 - Newidiadau Arfaethedig i Drefniadau Argyfwng Safle Wylfa yn ystod y Cyfnod Gwaredu Tanwydd - 11 Mai 2016 Cynllun Argyfwng Diwygiedig. TRIM 2016/201390.
16. WYA/EMP/001 - Mater 12 - Cynllun Argyfwng Wylfa - 11 Mai 2016. TRIM 2016/201405
17. Safle Wylfa - Datganiad Dan Materion yn Codi o Gofnodion Blaenorol - mae Cofnodion 125-136 yn cyfeirio at - Adolygiad 1 - 4 Mai 2016. TRIM 2016/201431
18. Wylfa - Offeryn Trwydded - Offeryn Trwydded Rhif 567 - Cymeradwyo Mater 11 o Gynllun Argyfwng Wylfa - Mai 2016. TRIM 2016/117952.
19. Llythyr WYF52497R - Llythyr gan Wylfa - Gorsaf Bŵer Wylfa - Gwybodaeth i Gefnogi Trefniadau Argyfwng Gwaredu Tanwydd - 30 Mawrth 2016 TRIM 2016/139687
20. Llythyr WYF52501R - Llythyr gan Wylfa - Cais am gymeradwyaeth dan Amod Trwydded 11(3) i'r Diwygiad i Gynllun Argyfwng Wylfa - 16 Mai 2016. TRIM 2016/201291